

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Bethan Roberts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth
Nos Iau 21 Tachwedd 2019 am 18.30

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Mary Hayes

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan yr Is-Gadeirydd, Cyng. Huw Jones.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Richard Fraser-Williams, Gwen Griffith, Jacob Milner, Iwan Hywel, Lowri Jones, Gabrielle Wyn, a Mair Leverett.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2019.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

- 3.1** Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – Y Cyngor yn caniatáu i'r gwaith gychwyn cyn gynted a bo modd. Y Cyng. Richard Fraser-Williams wedi derbyn ymateb gan y contractwr ei fod ddim yn gallu gwneud y gwaith. Cyng. Richard Fraser-Williams am edrych am gontractwr lleol arall i ymgymryd a'r gwaith.
- 3.2** Goleuadau stryd Mynydd Llandygai – problemau gyda rhai ohonynt:
14 Llwybr Main – golau dal yn fflachio;
Llwybr Main – y golau sydd ar yr arwydd ' Ildiwch' yn fflachio. Y Clerc a Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu eisoes gyda Cyngor Gwynedd, ond dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi am ddiweddariad.
- 3.3** Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – y Clerc wedi derbyn ymateb gan Iwan ap Trefor. Yr ohebiaeth i gael ei gynnwys yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr, gan fod nifer o ymddiheuriadau.
- 3.4** Ciciwr Calon Tregarth – y Clerc wedi archebu 3 arwydd, ond nid oedd yn bosib eu gosod ar noson yr hyfforddiant oherwydd tywydd garw. Cyng. Dafydd Owen i drefnu i'r arwyddion cael ei gosod cyn gynted a bu'r modd.
- 3.5** Y Clerc wedi derbyn ebost gan yr Adran Gynllunio ynglŷn a gosod ciciwr calon yn Neuadd Talgai, Llandygai. Nodwyd nad yw'n bosib i'w osod ar y Neuadd oherwydd ei fod yn adeilad rhestredig. Y Clerc wedi gwneud ymholiadau gyda Tomos Hughes o'r elusen Achub Calon y Dyffryn ynglŷn a'r trafferth, ac wedi trafod y posibilrwydd o'i leoli yn annibynnol o fewn cwrtel y Neuadd. Cyng. Mair

- Leverett i gael caniatad gan yr eglwys i'w osod yno, a'r Clerc i ddanfôn cynllun syml i'r Swyddog Cadwraeth yng Nghyngor Gwynedd i gael caniatad. Y Clerc i holi Tomos Hughes os oes bosib gael lluniau o rhywbeth tebyg.
- 3.6** Bin Halen newydd yn Bro Syr Ifor – nodwyd Cyng. Dafydd Owen bod Cyngor Gwynedd yn bwriadu gosod yr bin newydd o fewn yr wythnos nesaf.
- 3.7** Carreg yn rhydd ger Min y Coed, Llandygai – Cyng. Dafydd Owen wedi hysbysu Cyngor Gwynedd. Y twll dal yno.
- 3.8** Adroddwyd fod un o drigolion ardal Talybont yn glanhau ardal Talybont a Llandygai yn wirfoddol. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi ei waith ac yn awyddus rhoi rhodd i ddweud diolch. Penderfynwyd mai rhoi rhodd oedd yn cael ei ffafrio yn hytrach na'i gyflogi. Y Clerc i gael sgwrs gyda'r unigolyn a phenderfynwyd rhoi rhodd o £200 am ei holl waith hyd yn hyn.
- 3.9** Nodwyd Cyng. Gwen Griffith fod dim arwyddion ar gyfer ciciwr calon Mynydd Llandygai. Cytunwyd y byddai Cyng. Richard Fraser-Williams yn cael dyfynbrisiau ar gyfer rhai tebyg i'r rhai sydd yn Nhregarth.
- 3.10** Adroddwyd bod cwynion wedi eu derbyn ynghylch yr adeiladau allanol rhwng Pandy a Tan Lôn, Tregarth, llawer mwy o geir yn mynd yn ôl ac ymlaen o'r lleoliad. Yn dilyn diffyg ymateb gan yr Adran Gynllunio, penderfynwyd bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r Aelod Cabinet gyda'n pryderon/sylwadau yn dilyn diffyg ymateb gan yr Adran Gynllunio. Mae'r Uned Gorfodaeth mewn trafodaeth gyda'r perchennog ar hyn o bryd i gyflwyno cais cynllunio 'Certificate of lawful use' gan ei bod yn gwybyddu fod yr adeiladau yn cael ei ddefnyddio fel unedau gwyliau dros 4 mlynedd, unwaith fydd fath gais yn cael ei gyflwyno byddant yn ein cyngori. Y Cyngor i gadw llygaid ar y mater yn y dyfodol.
- 3.11** Adroddwyd gan y Cyng. Dafydd Owen fod G Williams wedi dechrau ar y gwaith torri a glanhau llwybrau. Cyng. Dafydd Owen i holi os oes modd iddo ychwanegu glanhau ffosydd i'w raglen waith - llawer o ffosydd yn y plwyf angen sylw brys. Cyng. Gwen Griffith wedi danfon manylion ar gyfer unigolyn arall a fyddai hefo diddordeb yn y gwaith.
- 3.12** Llwybr rhif 26 – Ffordd Tan y Bwlch tuag at y Chwarel – Adroddwyd fod yno wartheg ar hyd y llwybr yn gwrthod symud i gerddwyr. Y Clerc wedi cysylltu gyda'r swyddog llwybrau yn Cyngor Gwynedd i ofyn os oes arwyddion i rybuddio cerddwyr. Angen holi Cyngor Gwynedd am arwyddion ar gael i rybuddio bobl bod anifeiliaid ar y safle.
- 3.13** Swyddogion diogelwch ger mynediad safle Bryn Cegin, yno 24 awr o bob dydd. Yn dilyn ymholiadau gyda Cyngor Gwynedd, Llywodraeth Cymru yw perchennog y safle, ac mae'r cwmni diogelwch wedi eu penodi i ddiogelu'r safle oherwydd materion diweddar sydd wedi codi gyda theithwyr a'r pryder y byddent yn cael mynediad i'r safle. Y Clerc wedi cysylltu a Chyngor Gwynedd, ac mae'r swyddog wedi danfon ein ymholiad ymlaen i Llywodraeth Cymru. Dim ymateb hyd yn hyn.
- 3.14** Adroddwyd bod cyflwr Eglwys St Ann's yn warthus, bod yno goed y tyfu drwy'r adeilad ac yn y tŵr. Y Clerc wedi cysylltu gyda'r adran Iechyd a Diogelwch yn Cyngor Gwynedd. Dim ymateb hyd yn hyn. Hefyd, Y Clerc wedi cysylltu gyda'r Eglwys yng Nghymru ynglyn a gor-dyfiant y coed dros y ffordd. Wedi derbyn ymateb gan Ms Janet Williams eu bod ddim yn gyfrifol am y coed ochr uchaf i giat yr eglwys, ac nid oes ganddynt y cyllid i dorri'r coed is lawr. Y Clerc i cysylltu gyda'r adran priffyrdd yng Nghyngor Gwynedd i nodi ein pryderon.
- 3.15** Gwasanaeth Bws 68-76-76a – Nodwyd fod amserlen y bws yn cael ei newid yn ddi-rybudd a heb hysbysu'r Cyngor nag y defnyddwyr ar y 22ain o Orffennaf.

Mae'r llwybr newydd dal yn ychwanegu o leiaf tri chwarter awr i'r daith i blant ysgol a staff Ysbyty Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru. Y Clerc wedi cysylltu gyda Dafydd Wyn Williams yng Nghyngor Gwynedd eto ynglyn y phyderon y Cyngor, ac nodwyd fod yr amserlen bws yn gael ei adolygu ar hyn o bryd, gan fod wasanethau bws ardal Arfon yn dod i fyny am dendr yn fuan yn 2020. Mae swyddogion yr Adran yn cyd-weithio a Trafnidiaeth Cymru a Phrifysgol Bangor i geisio gwella'r ddarpariaeth cludiant syd ar gael i bobl Gwynedd, a bydd sylwadau y Cyngor yn gael ei ystyried yn yr adolygiad. Hefyd nodwyd y bydd ymghynghoriad cyhoeddus yn gael ei gynnal yn fuan.

- 3.16** Adroddwyd bod yn amser i lanhau o gwmpas y ganolfan yng Nhregarth ac hefyd y llochesi bws a'r grisiau. Y Cyng. Dafydd Owen am drefnu gyda'r contractwr.
- 3.17** Dirywiad yr Onnen 'Ash dyeback' ger Ganolfan Tregarth – Y Cyng. Dafydd Owen wedi holi Cyngor Gwynedd, ac maent wedi cynnal archwiliad o'r coed yno. Cyfrifwyd 29 coeden o fewn y safle ac un arall ar dir gyfagos a tybir fod pum coeden yn arddangos nodweddion haint Dirywiad yr Onnen. Bwriedir cynnal archwiliad arall o'r coed onnen ym mis Mai i gyda sylw arbennig i'r pum coeden i gadarnhau eu cyflwr.
- 3.18** Llwybr troed uwchben Bryn – coed/gwrych wedi gor-dyfu. Cyngor Gwynedd yn ymwybodol. Y Cyng. Dafydd Owen am anfon nodyn i'w atgoffa.
- 3.19** Y llwybrau angen eu glanhau. Y Cyng. Dafydd Owen am drefnu gyda'r contractwr.
- 3.20** Penderfynwyd byddai tendro ar y cyd yn niweidiol i'r cwmnïau bach sy'n gwneud y gwaith ar hyn o bryd. Penderfynwyd sefydlu Is-bwyllgor ar gyfer dylunio'r tendr 3 blynedd ar gyfer y gwaith llwybrau a ffosydd yn y plwy. Enwebwyd y Cyngor. Dafydd Owen, Richard Fraser-Williams, Gwen Griffith, Huw Jones a Gabrielle Wyn. Cafodd yr Is-bwyllgor ei ddirprwyo ar gyfer llunio'r tendr. Y Clerc i ddanfôn rhestr llwybrau i'r Is-bwyllgor cyn gynted a bu'r modd.
- 3.21** Llecyn Tir, Bont Twr – Y Clerc wedi cysylltu gyda'r Gofrestra Tir ynglyn a'r llecyn tir. Cadarnhawyd fod y tir hwn o dan berchnogaeth 'Welsh Slate' ar hyn o bryd. Y Clerc i danfôn y gwaith papur sydd yn cadarnhau bod yr llecyn tir yma yn berchen i'r Cyngor Cymuned. Y Clerc i adolygu yswiriant y Cyngor i wneud yn shwr fod y llecynau tir wedi gael ei gynnwys.

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Tachwedd 2019'

Cyflwynwyd: E-bost gan Cylch yr Iaith ynglŷn a enwebu tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru yn Safle Treftadaeth y Byd, ac yn holi os oes gan y Cyngor bryderon. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ac yn ddiolchgar iawn i Mr Howard Huws am ei waith ymchwil a'r manylder o fewn y ddogfen. Mi fydd y Cyngor yn cadw llygaid ar y materion a godwyd o fewn y ddogfen yn y dyfodol.

Cyflwynwyd: E-bost gan Cynan Jones, Rheolwr Prosiect Canolfan Cefnfaes-cais am gynrychiolydd ar y grŵp llywio. Penderfynwyd gohurio'r penderfyniad tan y cyfarfod nesaf, oherwydd y nifer o ymddiheuriadau.

Cyflwynwyd: Meysydd Chwarae yn eich Tref/ Cymuned – Y Clerc i ymateb i nodi ein pryderon ynglyn a'r costau cysylltiedig a gwaith cynnal a chadw, a'r posibilrwydd uchel o orblygiadau gyda lechyd a Diogelwch.

Cyflwynwyd: Gorchymyn Cyngor Gwynedd – dim gwrthwynebiad.

Cyflwynwyd: Ebost gan Cyng. Gabrielle Wyn – Cynllun ‘micro-chip’ ar finiau gwastraff bwyd – cynllun treial ar y gweill yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd. Nid yw’r Cyngor yn mwybodol o cynllun tebyg yn gael ei dreilau yn Ngwynedd.

5. Gwaith y mis

- 5.1** Cyng. Dafydd Owen i wneud yn shwr bod yr contractwyr yn glanhau’r stepiau ger y Ganolfan cyn yr etholiad.
- 5.2** Wal Bro Syr Ifor – Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu gyda’r adran priodol.
- 5.3** Lon Y Wern – tyllau ymhob man ar hyd y ffordd, angen sylw brys. Mae’r ffordd yn beryglus iawn i cerddwyr a beicwyr.
- 5.4** Lon Las Ogwen – Beicwyr yn mynd ar wib ar hyd y llwybr, peryglus i cerddwyr, yn enwedig i’r rhai gyda plant bach. Y Clerc i cysylltu hefo Wyn Williams yn Cyngor Gwynedd i weld os oes arwyddion ar gael.

6. Adroddiadau’r Cynrychiolwyr

Canolfan Tregarth – adroddwyd fod y pwyllgor yn edrych am brisiau ar gyfer offer acwsteg i’r ystafelloedd. Adroddwyd fod y Cylch Meithrin wedi derbyn grant ar gyfer gael canopi.

Ysgol Bodfeurig a Ysgol Tregarth – Adroddwyd fod disgyblion y ddwy ysgol wedi bod yn cefnogi’r digwyddiad ‘Rickshaw Challenge’ Plant Mewn Angen wrth i’r her fynd drwy Dregarth a Mynydd Llandygai. Roedd y plant wrth ei boddau, ac nodwyd fod llawer o arian wedi gael ei gasglu ar gyfer yr elusen.

Partneriaeth Ogwen – Adroddiad Prosiectau wedi gael ei gynnwys yn dogfennau Gohebiaeth y Cyngor. Nodwyd fod y Cyngor yn hynod ddiolchgar i’r Partneriaeth am ei holl waith caled, ac yn ddiolchgar iawn i’r Prif Swyddog, Meleri Davies am ei holl waith caled gyda’r datblygiadau cymunedol.

7. Archeb 2020-21

Adroddiad gwariant wedi gael ei gylchredeg i’r Cynghorwyr oedd yn bresennol – Y Clerc i danfon y ddogfen i phawb drwy ebost. Holl aelodau i adolygu’r ddogfen cyn y cyfarfod nesaf.

8. Parcio ger Llyn Ogwen

Dim i’w adrodd.

9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

9.1 Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Hydref. Derbyniwyd yr adroddiad.

9.2 Rheoli Risg: Dim i’w ystyried ar hyn o bryd.

10. Taliadau

| | |
|--|----------|
| Cyngor Gwynedd – Gwasanaeth Archwiliad Mewnol | £192.00 |
| Partneriaeth Ogwen – cyfraniad tuag at costau Swyddog Cynnal | £1386.78 |
| Partneriaeth Ogwen – Gwasanaeth Clercio a Datblygu Cymunedol Hydref 2019 – Mawrth 2020 | £5793.61 |

11. Penderfyniadau Cynllunio

C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ
fforddiadwy

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo
ac heb eu goleuo

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

NP3/16/28

Ogwen Falls Snack Bar, Nant Ffrancon,
Bethesda

Codi monopolyn 15m o uchder wedi'i
gladio â choed

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C18/0767/25/LL

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,
adeilad derbynfa, a chreu 2
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio
ffyrdd mynediad cysylltiedig a
meysydd parcio, tirweddu a gwaith
cysylltiedig eraill.

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C19/0830/16/CT

Eglwys y Santes Fair, Lon y Wern,
Tregarth

Tocio coed o fewn ardal gadwraeth

Penderfyniad: Caniatwyd heb
amodau

C19/0780/16/LL

Fferm Moelyci, Lon Felin Hen,
Tregarth

Creu maes parcio

Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

C19/0915/16/LL

74 Pen y Bwlch, Mynydd Llandygai
Estyniad deulawr ar gefn y tŷ

Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

C19/0918/16/LL

Chwarel Goch Isaf, Sling, Tregarth
Addasu adeiladau allanol ar gyfer 2
uned wyliau ynghyd a gosod tanc
septig newydd a pharcio

Penderfyniad: Cais wedi'i gofrestru

C19/0909/16/LL

Gateway Park, Ystad Ddiwydiannol
Llandygai, Bangor
Codi teras o unedau canolfan fasnach
gan gynnwys parcio a gwasanaethau

Penderfyniad: Cais wedi'i gofrestru

C19/0884/16/LL

Neuadd Goffa, Mynydd Llandygai
Codi eisteddler ar gyfer 100 o bobl a
mannau parcio newydd

Penderfyniad: Cais wedi'i gofrestru

12. Ceisiadau Cynllunio

NP3/16/AD23H

Canolfan Wardeiniaid, Nant Ffrancon
Gosod tri panel dehongli, un sgrin
gyffwrdd ynghlwm wrth ddrychiad
blaen adeilad APCE a dau yn sefyll ar
eu pennau eu hunain ar blinth cerrig

Penderfyniad: Cefnogi

NP3/16/23G

Canolfan Wardeiniaid, Nant Ffrancon
Gosod obelisg dehongli carreg crwn,
fertigol

Penderfyniad: Cefnogi

C19/0898/16/LL

Bryniau Eithinog, Sling
Trosi adeilad allanol yn llety gwyliau a
gosod cyfarpar pecyn trin carthion

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad,
ond angen defnyddio deunyddiau
naturiol a lleol.

13. Unrhyw fater brys arall

Dim i'w drafod.